*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Sirol Rhondda Cynon Taf
2 Llys Cadwyn
Stryd Taf
Pontypridd
CF37 4TH

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Council Business Unit
(Emma.Wilkins@rctcbc.gov.uk)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **PWYLLGOR SAFONAU** yn cael ei gynnal yn **Hybrid** ar **DYDD LLUN, 29AIN IONAWR, 2024** am **10.00 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Iau, 25 Ionawr 2024 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 yn rhai cywir.

5 - 10

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

**3. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CRYNODEB O'R CWYNION YN ERBYN AELODAU - 30 AWST 2023 - 22 IONAWR 2024**

Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r cwynion a wnaed yn erbyn Aelodau ac a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr 'Ombwdsmon') am y cyfnod rhwng 30 Awst 2023 a 22 Ionawr 2024.

11 - 18

**4. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CANLYNIADAU YMCHWILIADAU DIWEDDAR – 'EIN CANFYDDIADAU'**

Trafod crynodeb o ganlyniadau ymchwiliadau ynghylch achosion honedig o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau, fel y'i cyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan y pennawd 'ein canfyddiadau' ar ei wefan. Roedd y rhain ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 22 Ionawr 2024.

19 - 30

**5. ADOLYGIAD O'R PROTOCOL CYSWLLT RHWNG AELODAU A SWYDDOGION**

Adolygu Protocol y Cyngor ar Gyswllt rhwng Aelodau a Swyddogion, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad yma, a thrafod a ddylid cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i'r protocol hwnnw.

31 - 56

**6. CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (ADRODDIAD RICHARD PENN)**

Er gwybodaeth.

57 - 78

**7. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**